



Swyddfa Gartref

Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a diwygiadau cysylltiedig

Tachwedd 2013

Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Ddeddf Gwenwynau 1972, Rheolau Gwenwynau 1982, Rhestr Gwenwynau 1982 a diwygiadau cysylltiedig

Cwmpas yr ymgynghoriad

Pwnc yr ymgynghoriad:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y diwygiad arfaethedig i gamau rheoli ar werthu gwenwynau nad ydynt yn feddygol.
Cwmpas yr ymgynghoriad:	Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â diwygiadau polisi a gorfodi i'r ffordd y mae'r Swyddfa Gartref yn rheoli gwerthu gwenwynau nad ydynt yn rhai meddygol. Nod y diwygiadau yw cynyddu rheolaeth ar y defnyddwyr gan gadw'r baich ar fusnesau cyn lleied â phosibl.
Cwmpas daearyddol:	Y Deyrnas Unedig.
Asesiad effaith:	Ynghlwm

Gwybodaeth sylfaenol

At:	Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i'r cyhoedd. Rydym yn neilltuol yn ceisio barn y rhai sy'n defnyddio gwenwynau at ddibenion amhroffesiynol (hobiau, yn y cartref), busnesau sy'n defnyddio gwenwynau ar gyfer gweithgareddau proffesiynol, busnesau sy'n gwerthu gwenwynau i ddefnyddwyr cartref a defnyddwyr busnes, a chynhyrchwyr.
Cyfnod:	Mae'r ymgynghoriad yn para saith wythnos o 21 Tachwedd 2013
Ymholiadau:	precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk
Sut i ymateb:	Ceir gwybodaeth ynglŷn â sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn https://www.gov.uk/government/consultations/precursors-and-poisons-consultations Gellir cynnig ymatebion ar-lein trwy www.gov.uk neu trwy'r post trwy yrru ymatebion at: Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation Home Office CBRNE unit 5th Floor Peel Building 2 Marsham Street London, SW1P 4DF
Ffyrdd eraill i fod yn rhan o bethau:	Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel yr uchod) os hoffech gael gwybodaeth ar unrhyw ffurf wahanol, megis Braille, ffont mwy neu sain.
Yn dilyn yr ymgynghoriad:	Bydd ymatebion yn cael eu dadansoddi a chyhoeddir dogfen 'ymateb i'r ymgynghoriad'.

Hysbysiad prosesu teg

Gall rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn ofyn am wybodaeth bersonol. Cofiwch nad oes unrhyw **orfodaeth arnoch** i roi'r wybodaeth yma os dymunwch beidio.

Os ydych yn fodlon rhoi gwybodaeth bersonol, sylwer:

- Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar system ddiogel.
- **Ni fydd** yn cael ei rhannu gyda thrydydd partion.
- Ni chedwir eich gwybodaeth bersonol am fwy na 6 mis ac fe'i defnyddir at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig.
- Gall un o swyddogion y Swyddfa Gartref gysylltu â chi i gael eich ymateb i'r ymgynghoriad ac i drafod eich atebion yn fwy manwl.

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y diwygiad arfaethedig i gamau rheoli ar werthu gwenwynau nad ydynt yn feddygol.

Amcanion

Amcanion y polisi yw:

- Sicrhau bod rheolaeth ar wenwynau yn effeithiol wrth leihau'r risg o gamddefnydd gan ddal i ganiatáu gwerthiannau cyfreithlon.
- Sicrhau bod baich yn cael ei roi yn briodol ar y rhai sydd mewn perygl o ddefnyddio'r sylweddau i achosi niwed.
- Lleihau beichiau trwy weithredu ar yr un pryd ag yn yr un modd â'r Rheoliad Marchnata a Defnyddio Rhagsylweddion Ffrwydron.

Cefndir

Deddf, Rheolau a Rhestr Gwenwynau Ar Hyn o Bryd

Cynlluniwyd Deddf Gwenwynau 1972 i gyfyngu ar argaeledd gwenwynau i'r cyhoedd i atal eu camddefnyddio, trwy amryfusedd neu trwy fwriad troseddol, gan ar yr un pryd sicrhau bod y gwenwynau ar gael i'r rhai sydd ag angen cyfreithlon trwy reoleiddio eu hadwerthu. Mae'r Rhestr Gwenwynau yn nodi'r gwenwynau hynny sy'n cael eu rheoli ac mae'r Rheolau Gwenwynau yn llacio, amrywio ac ymestyn y rheoliadau a nodwyd gan y Ddeddf.

Rhennir y Rhestr Gwenwynau yn Rhan 1 a Rhan 2 (tudalennau 8, 9 a 10).

Ar hyn o bryd gall gwenwynau Rhan 1, a fyddai'n cael eu hystyried fel y rhai peryclaf, gael eu gwerthu gan unigolyn sy'n cynnal busnes fferyllol cyfreithlon yn unig. Rhaid iddynt hefyd gadw cofrestr Gwenwynau sy'n cofnodi manylion am y trafodyn a'r prynwr.

Dim ond unigolyn sy'n cynnal busnes fferyllol adwerthol neu unigolyn y mae ei enw wedi ei gofnodi ar restr awdurdod lleol sy'n eu cymeradwyo i werthu gwenwynau all werthu gwenwynau Rhan 2, a fyddai'n cael eu hystyried yn llai peryglus.

Mae'r Swyddfa Gartref a'r Bwrdd Gwenwynau, yr ymgynghorir ag ef yn statudol, wedi adolygu'r drefn bresennol o ran ei heffeithiolrwydd fel cam i ddiogelu'r cyhoedd rhag terfysgaeth neu ddefnydd troseddol. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o thema adwerthu yr Her i Fiwrocratiaeth, sy'n anelu at gael gwared ar feichiau diangen ar fusnesau. Ariannol yw prif faich y ddeddfwriaeth Wenwynau bresennol gan fod rhaid i werthwyr gwenwynau brynu trwydded gan eu hawdurdod lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth.

Nododd yr adolygiad y gwendidau canlynol yn y drefn bresennol:

- 1) nid yw'r gofrestr gwenwynau yn ei ffurf bresennol yn cynnig digon o rwystr i atal rhywun rhag prynu gwenwynau i'w camddefnyddio;
- 2) nid yw trwyddedu adwerthwyr yn cynnig diogeliad sylweddol rhag camddefnydd; a
- 3) nid yw trafodion o fusnes i fusnes yn cael eu monitro.

Yn 2012, rhoddwyd adroddiad ar 88 o ddigwyddiadau i Ganolfan Genedlaethol Gemegol, Fiolegol, Radiolegol a Niwclear yr Heddlu am ddefnyddio cemegolion i achosi niwed.

Dylai rhoi adroddiadau ar drafodion amheus arwain at gudd-wybodaeth ychwanegol ac adroddiadau i'r heddlu, gan ganiatáu iddyn nhw ymchwilio ac erlyn y rhai sy'n bwriadu achosi niwed cyn iddynt wneud hynny.

Dewisiadau a gynigir

Dewis 1 yw peidio â gwneud unrhyw newidiadau (gwneud dim).

Dewis 2 yw ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr cartref gael trwydded cyn prynu Gwenwyn Rhan 1 gan fferyllfa gofrestredig. Byddai gwenwynau Rhan 1 a 2 yn gofyn am roi adroddiadau trafodion amheus, dwyn a cholledion arwyddocaol gorfodol ar gyfer gwerthiannau i ddefnyddwyr a busnes i fusnes. Byddai Dewis 2 hefyd yn cynnwys gofyn am labelu cynnyrch Rhan 1 perthnasol i ddynodi bod caffael, meddiannu neu ddefnyddio'r cynnyrch yn cael ei gyfyngu.

Ni fyddai'n rhaid i adwerthwyr bellach brynu trwydded i werthu Gwenwynau Rhan 2.

Gall y cais i fusnesau roi adroddiad am drafodion amheus effeithio ar unrhyw gwsmer sy'n prynu gwenwynau Rhan 1 neu 2.

Yn ychwanegol, bydd y cynnig i drwyddedu defnyddwyr cartref gwenwynau Rhan 1 yn effeithio ar ddefnyddwyr cartref. Mae'r defnyddiau cartref o wenwynau Rhan 1 hysbys yn cynnwys eu defnyddio i reoli llygod ac i echdynnu metelau.

Dewis 3 yw symud yr holl wenwynau Rhan 2 sydd uwch ben y trothwy crynodiad presennol i Ran 1 fel mai dim ond fferylllydd cofrestredig fyddai'n gallu eu gwerthu. Byddai angen i aelod o'r cyhoedd a fyddai'n dymuno prynu gwenwyn Rhan 1 gofnodi ei fanylion personol yn y gofrestr wrth brynu. Bydd y diwygiadau arfaethedig i'r Ddeddf Gwenwynau yn cael effaith uniongyrchol ar fusnesau sy'n gwerthu gwenwynau a defnyddwyr sy'n prynu'r gwenwynau yma i'w defnyddio gartref. Pan fyddwn yn defnyddio'r term defnyddio gartref yr hyn a olygwn yw defnydd nad yw ar gyfer busnes neu ddefnydd proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer hobiau neu lanhau yn y cartref neu arddio os nad ydych yn cael eich talu am gyflawni'r weithred.

Trwyddedu

Rydym yn ystyried a ydym am sefydlu cynllun trwyddedu ar gyfer defnyddwyr cartref gwenwynau Rhan 1, ac mae arnom angen dangos a fydd digon o alw am drwyddedau i gyfiawnhau cost sefydlu system i reoli trwyddedau. Bydd cost derfynol y drwydded yn seiliedig ar adfer y gost yn llawn.

Gall y broses ymgeisio gymryd peth amser gan y gall fod arnom angen cynnal gwiriadau ar gefndir yr ymgeisydd. Hoffem, felly, gasglu tystiolaeth a fyddai defnyddwyr cartref yn ystyried prynu trwydded, yn hytrach na defnyddio dewisiadau eraill, ac os felly, beth yw uchafswm y pris y byddent yn barod i'w dalu am drwydded.

Rhoi adroddiad am drafodion amheus

Bydd raid i fusnesau sy'n gwerthu'r cemegolion a restrir fod yn ymwybodol o drafodion a all fod yn amheus.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi paratoi cyfarwyddyd drafft ar sut y gallai trafodion amheus edrych.

Mae'r cyfarwyddyd drafft yn nodi bod trafodyn amheus yn unrhyw bryniant (neu ymdrech i brynu) ar un neu fwy o'r gwenwynau a restrir yn Rhan 1 neu 2 o'r Rhestr Gwenwynau sy'n gwyro o'r hyn y byddid yn ei ddisgwyl fel arfer.

Mae'r dangosyddion ar gyfer ymddygiad amheus yn cynnwys pan fydd cwsmer:

- Yn ymddangos yn nerfus neu yn osgoi cwestiynau, neu nad yw'r math arferol o gwsmer,
- Yn ceisio prynu swm anarferol o gynnyrch neu gyfuniad anarferol o gynhyrchion,
- Yn anghyfarwydd â'r defnydd arferol o'r cynnyrch, ac â'r cyfarwyddiadau trin,
- Yn amharod i rannu beth mae ef/hi yn bwriadu defnyddio'r cynnyrch ar ei gyfer,
- Yn gwrthod cynnyrch arall neu gynhyrchion gyda chrynodiad is (ond digonol i'r bwriad a roddwyd),
- Yn mynnu talu mewn arian parod, symiau mawr yn enwedig
- Yn gwrthod rhoi ei enw/ei henw, cyfeiriad neu rif ffôn, neu ddogfennau adnabod pan ofynnir amdanynt,
- Yn gofyn am becynnu neu ddosbarthu arbennig ar y cynnyrch/cynhyrchion.

Byddai'n ofynnol i Gwmnïau a Fferyllfeydd roi adroddiadau yn cynnwys manylion am unrhyw ymddygiad sydd yn amheus yn eu golwg (nid yr 8 enghraifft uchod yn unig) ac a all fod yn bwysig i atal camddefnyddio rhagsylweddion ffrwydron.

Byddai'n ofynnol iddynt hefyd roi adroddiad ar adegau pan fydd cynnyrch yn diflannu neu'n cael ei ddwyn sy'n arwyddocaol a/neu anarferol i'w busnes neu na ellir eu hesbonio yn rhwydd.

Bydd raid i bob fferyllfa sy'n gwerthu gwenwynau Rhan 1 i'r cyhoedd gyfarwyddo â'r rheoliadau ar drafodion amheus a rhoi adroddiad ar golledion arwyddocaol yn ogystal â gwirio trwyddedau. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 0.5 awr i bob aelod o staff ym mhob fferyllfa.

Mae Dewis 2 yn cael gwared ar y gofyn i gadw cofrestr gwenwynau ar gyfer gwenwynau Rhan 1 gan ychwanegu'r gofyn i fferyllwyr cofrestredig wirio trwyddedau. Rydym wedi tybio mai cost/budd dibwys fydd yn deillio o'r newid mewn gweithgareddau.

Bydd raid i adwerthwyr eraill gyfarwyddo â'r rheoliadau ar drafodion amheus a rhoi adroddiad ar golledion arwyddocaol. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 1 awr i bob aelod o staff ym mhob busnes a 15 munud i bob aelod o staff i gynhyrchwyr a chyfanwerthwyr.

Bydd raid i bob busnes wirio ar ba gynnyrch y mae hyn yn effeithio. Mae'r asesiad effaith yn tybio y bydd hyn yn cymryd tua 2 awr i bob busnes.

Labelu

Bydd angen i bob busnes labelu gwenwynau Rhan 1. Tybiwyd, cyn belled â bod gweithgynhyrchwyr/llunwyr yn gwybod am y gofyn mewn da bryd cyn i'r rheoliadau ddod i rym, y byddai costau ychwanegu un llinell o destun at labeli yn ddibwys.

Gwerthiannau busnes i fusnes

Mae gwerthiannau busnes i fusnes yn cael eu heithrio o'r rheoliadau a roddwyd ar wenwynau Rhan 1. Ond, rhaid i fusnesau fod yn hyderus eu bod yn gwerthu i fusnes neu ddefnyddiwr proffesiynol arall. Rydym yn argymhell eu bod yn gwirio am brawf o TAW yn ogystal â rhyw ffurf arall o brawf, fel rhif cwmni'r cwsmer.

Ein Hymrwymiad i'r Her Fiwrocratiaeth

Rydym yn hollol ymroddedig i Her Fiwrocratiaeth y Llywodraeth i symleiddio rheoliadau a lleihau eu baich cyffredinol ar weithrediad busnesau o ddydd i ddydd. Rydym yn gweithio yn glos gyda Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Busnes Blaengaredd a Sgilliau i sicrhau bod yr egwyddorion yma yn ganolog i'n cynigion polisi terfynol. Rydym wedi gwneud ymrwymiad dan yr Her Fiwrocratiaeth, y byddwn, yn ogystal â thynhau'r rheolaeth ar sylweddau sy'n wirioneddol beryglus, yn lleihau'r baich ar adwerthwyr ac yn ceisio cael gwared ar y gofyn diangen i adwerthwyr gofrestru a thalu tua £35 i werthu ystod eang o sylweddau risg isel ar y Rhestr Gwenwynau.

Byddwn yn dangos ein hymrwymiad i'r Her Fiwrocratiaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Defnyddio cyngor arbenigol o bob rhan o'r Llywodraeth, y gymuned academiaidd a diwydiant i ddynodi sylweddau i'w tynnu oddi ar Ran 2 o'r Rhestr Wenwynau erbyn Medi 2014, a thrwy hynny leihau'r baich ar adwerthwyr ymhellach;
- Symleiddio'r broses o geisio cyngor arbenigol yn y maes hwn trwy foderneiddio cyfansoddiad y Bwrdd Gwenwynau, corff statudol, fel y mae'n cael ei nodi yn Neddf Gwenwynau (1972). Byddwn yn deddfu ar y cyfle cyntaf i dderbyn cyngor yn y dyfodol mewn ffordd fydd yn llai biwrocrataidd; a
- Sicrhau bod unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth yn gymesur i'r bygythiad a wynebhir, ag eitemau risg isel heb fod yn amodol ar weithredu diangen gan fusnes.

Os ydych yn ddefnyddiwr cartref o'r gwenwynau dan sylw neu'n aelod o'r cyhoedd defnyddiwch y ffurflen ymateb yn **Atodiad A**

Os ydych yn cynrychioli fferyllfa gofrestredig defnyddiwch y ffurflen ymateb yn **Atodiad B**.

Os ydych yn cynrychioli busnes nad yw'n fferyllfa defnyddiwch y ffurflen ymateb yn **Atodiad C**

Atodiad A: Ffurflen ar gyfer defnyddwyr gwenwynau rhan 1 a 2 yn y cartref

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, roi ymatebion unigol ar gael, os bydd gofyn gan y cyhoedd.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 6 Ionawr 2014.

Enw:

Sefydliad: (os yn berthnasol):

Cyfeiriad:

Dychwelwch ffurflenni wedi eu llenwi at:

Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation
Home Office, CBRNE unit, 5th Floor Peel Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

E-bost: precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk

Rydym ar fin gofyn cwestiynau i chi am eich defnydd cartref o'r cemegolion Atodiad 1 (uwchlaw'r crynodiad). Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gwybod am yr holl ddefnyddiau cartref posibl o'r cemegolion hyn.

C1: A ydych yn prynu gwenwynau rhan 1 neu ran 2? (Gweler isod am y rhestri.)

Rhan 1 yn unig

Rhan 2 yn unig

Y Ddau

C2: Pa wenwynau rhan 1 fyddwch chi'n eu defnyddio? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol.)

Alwminiwm ffosffid	
Arsenig; ei gyfansoddion (heblaw'r rhai sy'n Rhestr 2)	
Bariwm, ei halwynau, (heblaw'r cyfansoddion a nodir yn Rhestr 2)	
Bromomethan	
Cloropicrin	
Asid Fflworoasetig; ei halwynau; fflworoacetamid	
Hydrogen cyanid; cyanid metel, heblaw ferrocyanidau a ferricyanidau	
Asetad plwm; cyfansoddyn o blwm gydag asidau o olewau sefydlog	
Magnesiwm ffosffid	
Mercwri, cyfansoddion ohono, y canlynol: - Nitradau mercwri ; ocsidau cyanid mercwrig; thiocyanad mercwrig; cloridau amoniwm mercwrig; iodidau potasiwm mercwrig; cyfansoddion organig o fercwri sy'n cynnwys grŵp methyl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r atom mercwri	
Asid ocsalig	
Ffenolau (ffenol; isomerau ffenolig o'r cresolau canlynol, xylenolau, monoethylffenolau) heblaw mewn sylweddau sy'n cynnwys llai na 60% o'u pwysau mewn pwysau ffenolau; cyfansoddion o ffenolau gyda metel, ac eithrio mewn sylweddau sy'n cynnwys llai na'r hyn sy'n cyfateb i 60% o'r pwysau mewn pwysau ffenolau	
Melyn ffosfforws	
Strycnin; ei halwynau mewn cyfansoddion cwaternaidd	
Thaliwm, ei halwynau	
Dim	
Arall	

C3: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C4: Ar gyfer beth y byddwch chi'n defnyddio gwenwynau rhan 1?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol.)

Rheoli pla	
Trin metel	
Arall	

C5: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C6: Pa wenwynau rhan 2 fyddwch chi'n eu defnyddio? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol.)

Aldicarb	
Alpha-chloralose	
Amonia	
Arsenig, cyfansoddion o'r canlynol: Arsenadau calsiwm, acetoarsenite copr, arsenadau copr, arsenadau plwm	
Bariwm, halwynau'r canlynol: Bariwm carbonad, Bariwm silicofflorid	
Carbofuran	
Cycloheximid	
Dinitrocresolau (DNOC); eu cyfansoddion gyda metel neu fas	
Dinoseb; ei gyfansoddion gyda metel neu fas	
Dinoterb	
Draxoxolon; ei halwynau	
Endosulfan	
Endothal; ei halwynau	
Endrin	
Fentin, ei gyfansoddion	
Fformaldehyd	
Asid fformig	
Asid hydroclorig	
Asid hydroclorig; biffworidau metel alcali; biffworid amoniwm; fflworidau metel alcali; fflworid amoniwm; sodiwm silicofflorid	
Clorid mercwrig, iodid mercwrig; cyfansoddion organig o fercwri heblaw cyfansoddion sy'n cynnwys grŵp methyl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag atom mercwri	
Ocsallitadau metalig	
Methomyl	
Nicotin; ei halwynau; ei cwaternaidd	
Nitrobensen	
Ocsamyl	
Paraquat, ei halwynau	
Ffenolau	
Asid ffosfforig	

Cyfansoddion ffosforws, y canlynol: Azinphos-methyl, chlorfenvinphos, demephion, demeton-S-methyl sulphone, dialfios, dichlorvos, dioxathion, disulfoton, fonofos, mecarbam, mephosfolan, methidathion, mevinphos, omethoate, oxydemeton-methyl, parathion, phenkapton, phorate, phosphamidon, primiphos-ethyl, quinalphos, thometon, thionazin, trizophos, vamidothion	
Potasiwm hydrocsid	
Sodiwm hydrocsid	
Sodiwm nitrad	
Thiofanox	
Ffosffid sinc	
Dim	
Arall	

C7: Ar gyfer beth y byddwch chi'n defnyddio gwenwynau rhan 2?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol.)

Rheoli pla	
Glanhau	
Arall	

C8: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

Rydym yn awr yn mynd i ofyn cwestiynau i chi am y gwenwyn yr ydych yn ei ddefnyddio gartref a'i gost. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall y galw am y gwenwynau hyn er mwyn amcangyfrif effaith y rheoliadau hyn.

C9: Faint fyddwch chi'n ei wario ar y gwenwynau Rhan 1 a/neu Ran 2 y byddwch yn eu prynu bob blwyddyn?

£0 - £15	
£16 - £30	
£31 - £45	
£46 - £60	
mwya na £60	

C10: Faint o'r gwenwyn(au) fyddwch chi'n eu prynu bob blwyddyn?

Cemegyn, faint bob blwyddyn

C11: A allech chi ddefnyddio rhywbeth yn lle'r gwenwynau rhan 1?

Gallwn

Na

Ddim yn gwybod

C12: Os gallech, pa ddewisiadau eraill allech chi eu defnyddio?

Cemegyn newydd, ei ddefnydd a'r gwenwyn y byddai'n cymryd ei le

C13: A yw'r dewis arall y gallech ei ddefnyddio yn costio mwy neu lai na'r gwenwyn rhan 1?

Costio mwy

Costio 'run faint

Costio llai

Ddim yn gwybod

C14: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C15: A fydddech yn dal i brynu gwenwyn rhan 1 petai angen trwydded?

Byddwn	<input type="checkbox"/>
Na	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>

C16: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C17: Beth yw'r uchafswm y bydddech yn ei dalu am drwydded cyn y bydddech yn cael eich rhwystro rhag ymgeisio?

£0	<input type="checkbox"/>
£1 - £10	<input type="checkbox"/>
£11 - £20	<input type="checkbox"/>
£21 - £40	<input type="checkbox"/>
£41 - £60	<input type="checkbox"/>
£61 - £80	<input type="checkbox"/>
£80+	<input type="checkbox"/>

C18: A ydych hefyd yn prynu cemegolion Atodiad 1 neu 2 o'r rheoliad marchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron? (Gweler yr Ymgynghoriad ar weithredu rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar farchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron yn y Deyrnas Unedig.)

Ydw	<input type="checkbox"/>
Na	<input type="checkbox"/>
Ddim yn gwybod	<input type="checkbox"/>

C19: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y dewisiadau a nodir isod yn sicrhau y bydd yr amcanion polisi ar dudalen 3 yn cael eu cyflawni:


	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Dewis 1: Gwneud dim				
Dewis 2: (I) Byddai'n ofynnol i ddefnyddwyr cartref gael trwydded cyn prynu, defnyddio neu feddu gwenwyn Rhan 1. (II) Ar gyfer gwerthiannau busnes i fusnes, byddai gwenwynau Rhan 1 a 2 yn gofyn am roi adroddiadau trafodion amheus, dwyn a cholledion arwyddocaol gorfodol. (III) Ni fyddai'n rhaid i adwerthwyr bellach wneud cais am drwydded i werthu Gwenwynau Rhan 2. (IV) Byddai'n ofynnol i gynhyrchwyr gwenwynau Rhan 1 nodi 'cyfyngedig' ar label eu cynnyrch.				
Dewis 3: Symud yr holl wenwynau Rhan 2 sydd uwchben y trothwy crynodiad presennol i Ran 1 fel mai dim ond fferyllydd cofrestredig fyddai'n gallu eu gwerthu. Byddai angen i aelod o'r cyhoedd a fyddai'n dymuno prynu gwenwyn Rhan 1 gofnodi ei fanylion personol yn y gofrestr wrth brynu.				

C20: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.


C21: Gosodwch y dewisiadau yn y drefn orau gennych:

	Dewis cyntaf	Ail ddewis	Trydydd dewis
Dewis 1			
Dewis 2			
Dewis 3			

C22: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.



C23: Rhowch unrhyw fanylion y byddech am i ni eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad nad ydynt wedi eu trafod yn y cwestiynau uchod.



Atodiad B: Ffurflen ymateb i fferyllfeydd cofrestredig sy'n gwerthu gwenwynau rhan 1 a/ neu rhan 2 i'r cyhoedd yn unig

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, roi ymatebion unigol ar gael, os bydd gofyn gan y cyhoedd.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 6 Ionawr 2014.

Enw:

Sefydliad: (os yn berthnasol):

Cyfeiriad:

Dychwelwch ffurflenni wedi eu llenwi at:

Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation
Home Office, CBRNE unit, 5th Floor Peel Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

E-bost: **precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk**

Rydym ar fin gofyn cwestiynau i chi am eich busnes. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall y math o fusnesau y gall y rheoliadau hyn effeithio arnynt a'r nifer sydd ohonynt.

C1: Pa wenwynau Rhan 1 fyddwch chi'n eu gwerthu i ddefnyddwyr cartref? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol.)

Alwminiwm ffosffid	
Arsenig; ei gyfansoddion (heblaw'r rhai sy'n Rhestr 2)	
Bariwm, ei halwynau, (heblaw'r cyfansoddion a nodir yn Rhestr 2)	
Bromomethan	
Cloropicrin	
Asid Fflworoasetig; ei halwynau; fflworoacetamid	
Hydrogen cyanid; cyanid metel, heblaw ferrocyanidau a ferricyanidau	
Asetad plwm; cyfansoddyn o blwm gydag asidau o olewau sefydlog	
Magnesiwm ffosffid	
Mercwri, cyfansoddion ohono, y canlynol: - Nitradau mercwri ; ocsidau cyanid mercwrig; thiocyanad mercwrig; cloridau amoniwm mercwrig; iodidau potasiwm mercwrig; cyfansoddion organig o fercwri sy'n cynnwys grŵp methyl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r atom mercwri	
Asid ocsalig	
Ffenolau (ffenol; isomerau ffenolig o'r cresolau canlynol, xylenolau, monoethylffenolau) heblaw mewn sylweddau sy'n cynnwys llai na 60% o'u pwysau mewn pwysau ffenolau; cyfansoddion o ffenolau gyda metel, ac eithrio mewn sylweddau sy'n cynnwys llai na'r hyn sy'n cyfateb i 60% o'r pwysau mewn pwysau ffenolau	
Melyn ffosfforws	
Strycnin; ei halwynau mewn cyfansoddion cwaternaidd	
Thaliwm, ei halwynau	
Dim	
Arall	

C2: Pa gyfanswm o'r gwenwyn(au) hyn fyddwch chi'n eu gwerthu i ddefnyddwyr cartref bob blwyddyn?

Nodwch y gwenwyn a'r cyfanswm yn fras.

C3: Pa wenwynau Rhan 2 fyddwch chi'n eu gwerthu i ddefnyddwyr cartref?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol.)

Aldicarb	
Alpha-chloralose	
Amonia	
Arsenig, cyfansoddion o'r canlynol: Arsenadau calsiwm, acetoarsenite copr, arsenadau copr, arsenadau plwm	
Bariwm, halwynau'r canlynol: Bariwm carbonad, Bariwm silicofflorid	
Carbofuran	
Cycloheximid	
Dinitrocresolau (DNOC); eu cyfansoddion gyda metel neu fas	
Dinoseb; ei gyfansoddion gyda metel neu fas	
Dinoterb	
Draxoxolon; ei halwynau	
Endosulfan	
Endothal; ei halwynau	
Endrin	
Fentin, ei gyfansoddion	
Fformaldehyd	
Asid fformig	
Asid hydroclorig	
Asid hydroclorig; biffworidau metel alcali; biffworid amoniwm; fflworidau metel alcali; fflworid amoniwm; sodiwm silicofflorid	
Clorid mercwrig, iodid mercwrig; cyfansoddion organig o fercwri heblaw cyfansoddion sy'n cynnwys grŵp methyl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag atom mercwri	
Ocsalltadau metalig	
Methomyl	
Nicotin; ei halwynau; ei cwaternaid	
Nitrobensen	
Ocsamyl	
Paraquat, ei halwynau	
Ffenolau	
Asid ffosfforig	
Cyfansoddion ffosfforws, y canlynol: Azinphos-methyl, chlorfenvinphos, demephion, demeton-S-methyl sulphone, dialfios, dichlorvos, dioxathion, disulfoton, fonofos, mecarbarn, mephosfolan, methidathion, mevinphos, omethoate, oxydemeton-methyl, parathion, phenkapton, phorate, phosphamidon, primiphos-ethyl, quinalphos, thometon, thionazin, trizophos, vamidothion	
Potasiwm hydrocsid	
Sodiwm hydrocsid	
Sodiwm nitrad	
Thiofanox	
Ffosffid sinc	
Dim	
Arall	

Nodwch y gwenwyn a'r cyfanswm yn fras.

C4: Beth ydych chi'n ddeall yw'r prif ddefnydd a fwriadwyd ar gyfer y gwenwyn/au yr ydych yn eu gwerthu i ddefnyddwyr cartref?

Rheoli pla

Trin metel

Ddim yn gwybod

Arall

C5: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C6: Credwn y byddai gwirio trwyddedau ar gyfer gwerthiannau adwerthu ar wenwynau Rhan 1 yn hytrach na llenwi Cofrestr gwenwynau yn arwain at gostau dibwys i'r gwerthwr. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno?

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn gwybod

C7: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C8: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd yr angen i ymgeisio am drwydded yn atal defnyddwyr cartref rhag prynu eich cynnyrch/ cynhyrchion?

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C9: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C10: A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r angen i ddefnyddwyr cartref gael trwydded yn eich atal chi rhag gwerthu i'r cyhoedd?

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C11: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C12: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cyfarwyddiadau ar roi adroddiad am drafodion amheus a ddisgrifir ar dudalen 5 yn hawdd i'w deal?

Cytuno'n gryf	
Tueddu i gytuno	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
Tueddu i anghytuno	
Anghytuno'n gryf	
Ddim yn gwybod	

C13: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C14: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cyfarwyddyd hwn yn hawdd i'w weithredu?

Cytuno'n gryf	
Tueddu i gytuno	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
Tueddu i anghytuno	
Anghytuno'n gryf	
Ddim yn gwybod	

C15: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C16: A ydych yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd ar 0.5 awr i bob aelod o staff sy'n ofynnol mewn fferyllfeydd y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw ymglyfarwyddo â'r gofynion newydd yn:

Rhy brin	
Yn agos i'w le	
Rhy hir	
Ddim yn gwybod	

C17: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C18: A ydych hefyd yn gwerthu unrhyw un o'r cemegolion Atodiad 1 neu 2 o'r rheoliad marchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron a restrir yn yr Ymgynghoriad ar weithredu rheoliad yr Undeb Ewropeaidd ar farchnata a defnyddio rhagsylweddion ffrwydron yn y Deyrnas Unedig?

Ydw	
Na	
Ddim yn gwybod	

Atodiad C: Ffurflen ymateb i fusnesau yn unig

Gall yr Adran, yn unol â'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, roi ymatebion unigol ar gael, os bydd gofyn gan y cyhoedd.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 6 Ionawr 2014.

Enw:

Sefydliad: (os yn berthnasol):

Cyfeiriad:

Dychwelwch ffurflenni wedi eu llenwi at:

Explosives Precursors and Poisons Regulation Consultation
Home Office, CBRNE unit, 5th Floor Peel Building, 2 Marsham Street, London SW1P 4DF

E-bost: precursorsandpoisons@homeoffice.x.gsi.gov.uk

C1: Sut fydddech chi'n disgrifio eich busnes?

Adwerthwr trwyddedig gwenwynau rhan 2

Cyfanwerthwr gwenwynau rhan 1 neu 2

Cynhyrchydd gwenwynau rhan 1 neu 2

Defnyddiwr proffesiynol ar wenwynau rhan 1 neu 2

Arall

C2: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C3: Os ydych yn werthwr a/neu ddefnyddiwr gwenwynau Rhan 1, pa rai fyddwch chi'n eu gwerthu/defnyddio a thua faint o unedau o'r cynnyrch sy'n cynnwys y gwenwyn fyddwch chi'n eu gwerthu/defnyddio yn flynyddol?

Gwenwyn Rhan 1	Unedau a werthir yn flynyddol	Unedau a ddefnyddir yn flynyddol
Alwminiwm ffosffid		
Arsenig; ei gyfansoddion (heblaw'r rhai sy'n Rhestr 2)		
Bariwm, ei halwynau, (heblaw'r cyfansoddion a nodir yn Rhestr 2)		
Bromomethan		
Cloropicrin		
Asid Fflworoasetig; ei halwynau; fflworoacetamid		
Hydrogen cyanid; cyanid metel, heblaw ferrocyanidau a ferricyanidau		
Asetad plwm; cyfansoddyn o blwm gydag asidau o olewau sefydlog		
Magnesiwm ffosffid		
Mercwri, cyfansoddion ohono, y canlynol: - Nitradau mercwri ; ocsidau cyanid mercwrig; thiocyanad mercwrig; cloridau amoniwm mercwrig; iodidau potasiwm mercwrig; cyfansoddion organig o fercwri sy'n cynnwys grŵp methyl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r atom mercwri		
Asid ocsalig		
Ffenolau (ffanol; isomerau ffenolig o'r cresolau canlynol, xylenolau, monoethylffenolau) heblaw mewn sylweddau sy'n cynnwys llai na 60% o'u pwysau mewn pwysau ffenolau; cyfansoddion o ffenolau gyda metel, ac eithrio mewn sylweddau sy'n cynnwys llai na'r hyn sy'n cyfateb i 60% o'r pwysau mewn pwysau ffenolau		
Melyn ffosfforws		
Strychnin; ei halwynau mewn cyfansoddion cwaternaid		
Thaliwm, ei halwynau		
Dim		
Arall		

C4: Os ydych yn werthwr a/neu ddefnyddiwr gwenwynau Rhan 2, pa rai fyddwch chi'n eu gwerthu/defnyddio a thua faint o unedau o'r cynnyrch sy'n cynnwys y gwenwyn yn flynyddol?

Gwenwyn Rhan 2	Unedau a ddefnyddir yn flynyddol	Unedau a werthir yn flynyddol
Aldicarb		
Alpha-chloralose		
Amonia		
Arsenig, cyfansoddion o'r canlynol: Arsenadau calsiwm, acetoarsenite copr, arsenadau copr, arsenadau plwm		
Bariwm, halwynau'r canlynol: Bariwm carbonad, Bariwm silicofflorid		

Gwenwyn Rhan 2	Unedau a ddefnyddir yn flynyddol	Unedau a werthir yn flynyddol
Carbofuran		
Cycloheximid		
Dinitrocresolau (DNOC); eu cyfansoddion gyda metel neu fas		
Dinoseb; ei gyfansoddion gyda metel neu fas		
Dinoterb		
Draxoxolon; ei halwynau		
Endosulfan		
Endothal; ei halwynau		
Endrin		
Fentin, ei gyfansoddion		
Fformaldehyd		
Asid fformig		
Asid hydroclorig		
Asid hydroclorig; biffworidau metel alcali; biffworid amoniwm; fflworidau metel alcali; fflworid amoniwm; sodiwm silicofflorid		
Clorid mercwrig, iodid mercwrig; cyfansoddion organig o fercwri heblaw cyfansoddion sy'n cynnwys grŵp methyl sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag atom mercwri		
Ocsalltadau metalig		
Methomyl		
Nicotin; ei halwynau; ei cwaternaidd		
Nitrobensen		
Ocsamyl		
Paraquat, ei halwynau		
Ffenolau		
Asid ffosfforig		
Cyfansoddion ffosfforws, y canlynol: Azinphos-methyl, chlorfenvinphos, demephion, demeton-S-methyl sulphone, dialfos, dichlorvos, dioxathion, disulfoton, fonofos, mecarbarn, mephosfolan, methidathion, mevinphos, omethoate, oxydemeton-methyl, parathion, phenkapton, phorate, phosphamidon, primiphos-ethyl, quinalphos, thometon, thionazin, trizophos, vamidothion		
Potasiwm hydrocsid		
Sodiwm hydrocsid		
Sodiwm nitrad		
Thiofanox		
Ffosfid sinc		
Dim		
Arall		

C5: Os ydych yn defnyddio neu werthu'r cemegolion yma yn broffesiynol, a fydddech yn medru darparu un o'r dogfennau adnabod a restrir yn yr adran gwerthiannau busnes i fusnes ar dudalen 6 yn rhwydd?

Byddwn	
Na	
Ddim yn gwybod	
Ddim yn ddefnyddiwr proffesiynol	

C6: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C7: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cyfarwyddiadau ar roi adroddiad am drafodion amheus a ddisgrifir ar dudalen 5 yn hawdd i'w deall?

Cytuno'n gryf	
Tueddu i gytuno	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
Tueddu i anghytuno	
Anghytuno'n gryf	
Ddim yn gwybod	

C8: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.

C9: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y cyfarwyddyd hwn yn hawdd i'w weithredu?

Cytuno'n gryf	
Tueddu i gytuno	
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	
Tueddu i anghytuno	
Anghytuno'n gryf	
Ddim yn gwybod	

C10: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C11: A ydych yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd ar 15 munud i bob aelod o staff i gynhyrchwyr a chyfanwerthwyr y mae'r rheoliadau yn effeithio arnyn nhw ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd yn:

Rhy brin	
Yn agos i'w le	
Rhy hir	
Ddim yn gwybod	

C12: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C13: A ydych yn meddwl bod yr amser a amcangyfrifwyd ar 1 awr i bob aelod o staff sy'n ofynnol mewn adwerthwyr nad ydynt yn fferyllfeydd y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd yn:

Rhy brin	
Yn agos i'w le	
Rhy hir	
Ddim yn gwybod	

C14: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C15: Bydd raid i bob busnes wirio ar ba gynnyrch y mae hyn yn effeithio. Amcangyfrifwn y bydd hyn yn cymryd tua 2 awr i bob busnes. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno?

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C16: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb

C17: A fyddai'r gofynion rhoi adroddiad am drafodion amheus yn eich atal rhag gwerthu gwenwynau Rhan 1 a/neu 2?

Byddent	
Na	
Ddim yn gwybod	


C18: A fyddai'r gofynion rhoi adroddiad am drafodion amheus yn eich atal rhag naill ai werthu gwenwynau Rhan 1 a/neu 2 neu eu prynu?

Byddent	
Na	
Ddim yn gwybod	

C19: I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y dewisiadau a nodir isod yn sicrhau bod yr amcanion polisi ar dudalen 3 yn cael eu bodloni:

	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Dewis 1: Gwneud dim				
Dewis 2: (I) Byddai'n ofynnol i ddefnyddwyr cartref gael trwydded cyn prynu, defnyddio neu feddu gwenwyn Rhan 1. (II) Ar gyfer gwerthiannau busnes i fusnes, byddai gwenwynau Rhan 1 a 2 yn gofyn am roi adroddiadau trafodion amheus, dwyn a cholledion arwyddocaol gorfodol. (III) Ni fyddai'n rhaid i adwerthwyr bellach wneud cais am drwydded i werthu Gwenwynau Rhan 2. (IV) Byddai'n ofynnol i gynhyrchwyr gwenwynau Rhan 1 nodi 'cyfyngedig' ar label eu cynnyrch.				
Dewis 3: Symud yr holl wenwynau Rhan 2 sydd uwchben y trothwy crynodiad presennol i Ran 1 fel mai dim ond fferyllydd cofrestredig fyddai'n gallu eu gwerthu. Byddai angen i aelod o'r cyhoedd a fyddai'n dymuno prynu gwenwyn Rhan 1 gofnodi ei fanylion personol yn y gofrestr wrth brynu.				


C20: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.




C21: Gosodwch y dewisiadau yn y drefn orau gennych:

	Dewis cyntaf	Ail ddewis	Trydydd dewis
Dewis 1			
Dewis 2			
Dewis 3			
Dewis 4a			
Dewis 4b			

C22: Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ateb.



C23: Rhowch unrhyw fanylion y byddech am i ni eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad nad ydynt wedi eu trafod yn y cwestiynau uchod.



Hysbysiad prosesu teg

Gall rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn ofyn am wybodaeth bersonol. Cofiwch **nad oes unrhyw orfodaeth** arnoch i roi'r wybodaeth yma os dymunwch beidio.

Os ydych yn fodlon rhoi gwybodaeth bersonol, sylwer:

- Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar system ddiogel.
- **Ni fydd** yn cael ei rhannu gyda thrydydd partion.
- Ni chedwir eich gwybodaeth bersonol am fwy na 6 mis ac fe'i defnyddir at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig.
- Gall un o swyddogion y Swyddfa Gartref gysylltu â chi i gael eich ymateb i'r ymgynghoriad ac i drafod eich atebion yn fwy manwl.

